

Dysgu gydol oes Cymraeg a dwyieithog:

gweledigaeth ar gyfer y sector ôl-orfodol yng Nghymru
(2020 i 2025)

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Tachwedd 2020



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Gweledigaeth	3
3. Crynodeb o argymhellion y Coleg	4
4. Mewn ffocws: y sectorau ôl-16 ac addysg uwch	8
a. Addysg bellach cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	8
i. Gweledigaeth	8
ii. Cyd-destun	8
iii. Blaenoriaethau ac argymhellion	9
b. Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	10
i. Gweledigaeth	10
ii. Cyd-destun	10
iii. Blaenoriaethau ac argymhellion	10
c. Y Gymraeg mewn addysg uwch	11
i. Gweledigaeth	11
ii. Cyd-destun	11
iii. Blaenoriaethau ac argymhellion	12
ch. Sicrhau cyflenwad digonol o athrawon Cymraeg ar gyfer pob sector	13
d. Creu gweithlu dwyieithog ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd	13
dd. Cydweithio ar draws y sector ôl-orfodol	14

CYSYLLTU Â NI:

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan

Heol y Coleg

Caerfyrddin

SA31 3EQ

01267 610400

colegcymraeg.ac.uk

@ColegCymraeg

1. Cyflwyniad

Lansiwyd [Cynllun Strategol](#) pum mlynedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Chwefror 2020. Mae'r cynllun yn amlinellu gweledigaeth a gwerthoedd y Coleg ar gyfer y cyfnod dan sylw ac yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

Ers lansio'r Cynllun Strategol mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar bob agwedd o fywyd a pholisi cyhoeddus gan gynnwys gweithgaredd y Coleg Cymraeg yn y sector ôl-orfodol.

Fel nifer o gyrff eraill, mae'r Coleg wedi gorfod addasu ein cynlluniau tymor byr yn gyflym er mwyn cefnogi ein partneriaid i barhau i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf i fyfyrwyr a dysgwyr.

Ar gyfer y sector addysg uwch mae hyn wedi cynnwys:

1. Ymestyn ein cynllun ysgoloriaethau cymhellant, gwerth £1,500 y pen dros dair blynedd, i bob myfyriwr sy'n dewis astudio o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg;
2. Cymryd rôl arweiniol yn cydweithio gyda'r prifysgolion i gydlynu'r gwaith o sicrhau bod adnoddau ar-lein addas ar gael i gefnogi dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg;
3. Arwain ar gynllun i gynnig hyfforddiant i'r gymuned ddarlithio cyfrwng Cymraeg ar ddulliau addysgu newydd, mewn ymateb i gynlluniau'r prifysgolion i symud tuag at fodel dysgu cyfunol a dysgu ar-lein.

Wrth symud ymlaen, rydym yn ystyried pa gamau ychwanegol sy'n briodol yn ystod y cyfnod nesaf, yn enwedig wrth i brifysgolion symud yn gynyddol tuag at fodelau dysgu cyfunol yn dilyn profiadau cyfnod y pandemig.

Ar gyfer y sector addysg bellach a phrentisiaethau mae'r Coleg wedi:

1. Casglu'r adnoddau digidol perthnasol sydd eisoes yn bodoli o fewn y Coleg, a hefyd adnoddau gan sefydliadau eraill megis colegau a darparwyr unigol, a'u gosod ar y [Porth Adnoddau](#), wrth i golegau a darparwyr prentisiaethau symud at ddulliau addysgu ar-lein;
2. Sicrhau bod y diwrnodau agored rhithwir a gynhaliwyd ym mis Medi (ymgyrch a arweinir gan Lywodraeth Cymru) yn adlewyrchu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael ac yn annog dysgwyr i fanteisio ar hynny ac i ddatblygu y sgiliau Cymraeg sydd ganddyn nhw, a lansio'r ymgyrch "Mae gen ti fantais" i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn y sector ôl-16;
3. Gan barhau i ofidio am brinder staff sy'n medru siarad ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau, mae'r Coleg wedi dyfarnu pedwar grant eleni i ddatblygu darpariaeth mewn pedwar coleg ac yn parhau i gefnogi deiliaid grantiau a ddyfarnwyd yn 2019.

Pwrpas y ddogfen hon ydy crynhoi prif gynlluniau'r Coleg ar gyfer y cyfnod tymor canol fesul sector ac amlinellu argymhellion polisi a chyllido yng nghyd-destun adfer ac ailadeiladu sector ôl-orfodol yng Nghymru sy'n cofleidio'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd ac yn datblygu gweithlu hyderus a dwyieithog y dyfodol.

2. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru, ac yn benodol yng nghyd-destun addysg ôl-16 ac addysg uwch.

Er bod y pandemig wedi newid y cyd-destun yn llwyr, a bod pob un ohonom wedi gorfod addasu er mwyn ymateb iddo, mae'n gweledigaeth ni ar gyfer y cyfnod nesaf i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws colegau addysg bellach, prentisiaethau a phrifysgolion, yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau yn y maes addysg gychwynnol athrawon, yn aros yn gadarn, ac wedi ei hamlinellu yn y papur hwn.

Mae ein gweledigaeth yn un uchelgeisiol, hir-dymor ac yn rhan gwbl allweddol o strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Llywodraeth wedi adnabod twf sgiliau dwyieithog ar draws y sector gyhoeddus ond yn benodol ymhlith y gweithlu iechyd a gofal, addysg a gofal plant fel blaenoriaethau ac mae disgwyliadau Safonau'r Iaith Gymraeg ar draws yr economi yn golygu bod y galw am weithlu dwyieithog yng Nghymru ar gynydd.

Tra bod gwaith cychwynnol y Coleg wedi canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd astudio ar lefel addysg uwch i siaradwyr Cymraeg, mae cyfrifoldebau newydd y Coleg dros y sector addysg bellach a phrentisiaethau, a chynlluniau cyffrous y Coleg i ddenu cynulleidfaoedd newydd i ystyried y Gymraeg a dwyieithrwydd fel rhan o'u hastudiaethau addysg uwch, yn golygu **bod potensial y Coleg i gyfrannu at y nod o greu miliwn o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050 yn cynyddu'n sylweddol.**

O ystyried y niferoedd o ddysgwyr, hyfforddeion a myfyrwyr sy'n cofrestru bob blwyddyn yn y sector ôl-orfodol, a'u cyswllt uniongyrchol â'r economi, cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a phobl Cymru, cred y Coleg y gall wneud gwahaniaeth enfawr i sgiliau a defnydd iaith yn ein cymunedau. **Ond er mwyn llwyddo, mae angen adnoddau, cefnogaeth a chydweithrediad ein partneriaid a'n cyllidwyr.**

3. Crynodeb o argymhellion y Coleg

Addysg Bellach

Her: Ar hyn o bryd, canran isel o staff o fewn y Colegau addysg bellach (AB) sy'n medru'r Gymraeg, ac mae hyd yn oed llai yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, nifer cyfyngedig iawn o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Cyd-destun: Fel rhan o bolisi Llywodraeth Cymru i greu miliwn o bobl sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050, lanswyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn Ionawr 2019. Dros 18 mis, bu cynnydd pwrpasol o ran gweithredu amcanion tymor byr y Cynllun ond nifer fach o ofynion tymor canolig y Llywodraeth sy'n ymwneud â chynyddu darpariaeth y gellid eu cyflawni oddi mewn i'r ffrâm gyllido bresennol.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>1. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, mae angen buddsoddiad ychwanegol o £810,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn dechrau ar y gwaith o recriwtio staff sy'n medru addysgu'r meysydd blaenoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnig cefnogaeth iddynt ddatblygu'r ddarpariaeth newydd</p>	<p>Cynllun Addysgu Genedlaethol: peilot yn cael ei sefydlu yn y meysydd blaenoriaeth (recriwtio hyd at ddau aelod staff CALI i bob sefydliad).</p> <p>Strwythur cefnogi yn ei le i gynorthwyo'r darlithwyr newydd.</p> <p>Colegau AB yn cynnig peth darpariaeth Gymraeg ar draws rhai o'r meysydd blaenoriaeth.</p> <p>Dysgwyr yn dechrau elwa o ddatblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithog sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac yn gymdeithasol.</p>	<p>Cynnydd araf iawn neu dim cynnydd yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws ein colegau addysg bellach.</p> <p>Methiant i fanteisio ar ewyllys da o fewn y sector AB – colli momentwm.</p> <p>Methiant i gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.</p>
<p>2. Ar gyfer tymor nesaf Senedd Cymru, dylid ymrwymo i weithredu'r Cynllun Gweithredu AB yn ei gyfanrwydd dros gyfnod o dair blynedd gyda'r nifer o bynciau a gefnogir yn cynyddu blwyddyn ar flwyddyn yn unol ag uchelgais y Llywodraeth. I gyflawni'r weledigaeth bydd angen cyllideb dros dair blynedd fel a ganlyn:</p> <p>Blwyddyn 1: £1,400,000</p> <p>Blwyddyn 2: £2,500,000</p> <p>Blwyddyn 3: £3,200,000</p>	<p>Y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach yn cael ei gyflawni dros dymor nesaf Senedd Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colegau AB yn cynnig darpariaeth Gymraeg ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth • Dysgwyr yn elwa o ddatblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithog sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac yn gymdeithasol • Naws a diwylliant colegau addysg bellach yn dod yn fwy Cymreig. 	<p>Cynnydd araf iawn neu dim cynnydd yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws ein colegau addysg bellach.</p> <p>Methiant i fanteisio ar ewyllys da o fewn y sector AB sy'n arwain at golli momentwm.</p> <p>Methiant i gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu</p>

Prentisiaethau

Her: Ar hyn o bryd nifer cyfyngedig iawn o gyfleoedd hyfforddi Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael, yn bennaf oherwydd diffyg cymwysterau a phrinder hyfforddwyr ac aseswyr cyfrwng Cymraeg.

Cyd-destun: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i greu 100,000 o brentisiaethau newydd erbyn diwedd tymor y Senedd hwn ac mae eu Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg yn ymrwmo i gefnogi mwy o hyfforddeion i astudio'n ddwyieithog. Nid yw'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn gosod disgwyliadau clir i ddarparwyr prentisiaethau ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran datblygu mwy o gyfleoedd hyfforddi Cymraeg a dwyieithog.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>3. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod y cytundebau rhyngddynt hwy a'r darparwyr prentisiaethau, sy'n cael eu hadolygu yn ystod 2021, yn cyfeirio'n glir at ddisgwyliadau'r Llywodraeth o ran targedau am y Gymraeg a dwyieithrwydd.</p>	<p>Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Prentisiaethau Cymraeg yn cael ei gyflawni dros dymor nesaf Senedd Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparwyr prentisiaethau'n cynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y meysydd blaenoriaeth 	<p>Cynnydd araf iawn neu dim cynnydd yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws darparwyr prentisiaethau.</p> <p>Methiant i fanteisio ar ewyllys da o fewn y sector – colli momentwm.</p> <p>Methiant i gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.</p>
<p>4. Ar gyfer tymor nesaf Senedd Cymru, dylid clustnodi cyllideb rhesymol i'r Coleg er mwyn sicrhau bod strwythurau cefnogi cenedlaethol yn eu lle. Byddai'r strwythurau hyn yn galluogi cynllunio strategol, dylanwadu ar dargedau a gweithredu prosiectau penodol:</p> <p>Blwyddyn 1: £500,000</p> <p>Blwyddyn 2: £725,000</p> <p>Blwyddyn 3: £865,000</p>	<p>Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Prentisiaethau Cymraeg yn cael ei gyflawni dros dymor nesaf Senedd Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddeion yn elwa o ddatblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithog, sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac yn gymdeithasol Naws a diwylliant gweithleoedd yn dod yn fwy Cymraeg. 	<p>Cynnydd araf iawn neu dim cynnydd yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws darparwyr prentisiaethau.</p> <p>Methiant i fanteisio ar ewyllys da o fewn y sector – colli momentwm.</p> <p>Methiant i gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.</p>

Addysg Uwch

Her: Mae cyllideb graidd y Coleg ar gyfer y sector addysg uwch wedi aros yn yr unfan ers 2016. Mae hyn yn golygu bod dygymod â'r cynnydd yn y gost o gynnal y ddarpariaeth Gymraeg wedi bod yn fater o gryn bryder i'r prifysgolion. Mae argyfwng Covid-19 wedi ychwanegu pwysau ariannol digynsail ar ein prifysgolion.

Cyd-destun: Mae sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg uwch wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae'r Coleg, ar y cyd â'r prifysgolion, wedi cyflawni hyn mewn amgylchedd heriol, cystadleuol a chyfnewidiol. Er bod sefyllfa addysg uwch Cymru yn fregus tu hwnt ar hyn o bryd, a bod hynny'n gwneud cynnal y ddarpariaeth Gymraeg yn heriol yn wyneb y toriadau mewn nifer o brifysgolion, mae nifer o gyfleoedd i ddenu cynulleidfaoedd newydd at addysg uwch cyfrwng Gymraeg a dwyieithog.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>5. Cynyddu grant craidd y Coleg i gyfateb â chwyddiant er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a chyfnerthu'r ddarpariaeth bresennol; • Ymestyn y ddarpariaeth; • Denu cynulleidfaoedd newydd. <p><i>[Gallai'r cynnydd ddeillio o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, cronfa ar gyfer ailadeiladu yn dilyn argyfwng Covid-19 neu o unrhyw "difidend" a ddaw yn y dyfodol o ganlyniad i argymhellion adroddiad Diamond.]</i></p>	<p>Cyfnerthu a chynnal y ddarpariaeth Gymraeg bresennol.</p> <p>Cynyddu cyfleoedd o fewn y modelau presennol, gan gynnwys cryfhau cydweithio rhyng-sefydliadaol wrth gyflwyno dysgu cyfunol.</p> <p>Cynyddu darpariaeth ar raddau sylfaen, gradd brentisiaethau, graddau rhan-amser a graddau ôl-raddedig, yn ogystal â chefnogi nifer cyfyngedig o feysydd lle nad oes modd astudio yn y Gymraeg ar hyn o bryd.</p> <p>Cynyddu'r darpariaeth sydd wedi ei theilwra'n benodol i fyfyrwyr sy'n llai sicr o'u sgiliau Gymraeg.</p> <p>Ehangu mynediad a denu cynulleidfaoedd newydd i'r Gymraeg mewn addysg uwch</p>	<p>Darpariaeth Gymraeg mewn addysg uwch yn sefyll yn stond ac mewn nifer o feysydd yn crebachu</p> <p>Darpariaeth Gymraeg o fewn addysg uwch ar gael i fyfyrwyr rhugl a hyderus yn unig.</p>

Sicrhau cyflenwad digonol o athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Her: Ar hyn o bryd mae'n anochel na fydd y targedau presennol ar gyfer cynyddu niferoedd athrawon sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys dysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y sector uwchradd.

Cyd-destun: Bydd sicrhau cyflenwad digonol o athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr Gymraeg yn allweddol i lwyddiant Cymraeg 2050. Nid oes gan y Coleg rôl gynllunio yn y maes hwn.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>6. Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng y Coleg a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i osod trefniadau cenedlaethol yn eu lle ar gyfer hyfforddi athrawon gyda sgiliau Gymraeg a dwyieithog.</p> <p>Yn y lle cyntaf byddai angen cyllid ychwanegol o £200,000 y flwyddyn ar y Coleg i ymgymryd â rôl o'r fath. Byddai hyn yn galluogi'r Coleg i weithio gyda'r darparwyr i arwain y gwaith i gefnogi darparwyr drwy rannu arfer dda a hyfforddi/datblygu staff.</p>	<p>Corff cenedlaethol profiadol gyda chyfrifoldebau penodol yn cydweithio gyda CyGA i arwain ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • greu targedau ar gyfer hyfforddi nifer ddigonol o athrawon cymwys; • gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ac o ansawdd; • gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn eu lle i ddenu nifer ddigonol i gofrestru i hyfforddi fel athrawon yn y sector Gymraeg. 	<p>Llywodraeth Cymru'n methu â chyflenwi digon o athrawon Gymraeg a dwyieithog ac yn methu diwallu'r galw cynyddol am athrawon cymwys a grëir gan y Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (WESPs)</p>

Datblygu gweithlu dwyieithog ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd

Her: Mae Byrddau Iechyd ar draws Cymru yn adrodd bod recriwtio gweithlu dwyieithog yn her sylweddol.

Cyd-destun: Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth glir yn eu strategaeth [Mwy Na Geiriau](#) ar gyfer darparu gofal a gwasanaeth iechyd i bobl Cymru yn eu hiaith ddewisol. Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC/HEIW) yw'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu gweithlu'r GIG yng Nghymru.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>7. Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng AaGIC a'r Coleg Gymraeg er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas a datblygu cynlluniau pwrpasol i gynyddu sgiliau Gymraeg a dwyieithog gweithlu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.</p>	<p>Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni nodau cynllun Mwy Na Geiriau.</p> <p>Y byrddau iechyd yn adrodd bod recriwtio gweithlu dwyieithog yn llai o her nag o'r blaen.</p> <p>Pobl Cymru yn fwy tebygol o fedru cyfathrebu'n effeithiol â darparwyr gofal, sy'n arwain at ansawdd gwell o ofal.</p>	<p>Cynnydd araf iawn neu ddiffyg cynnydd o ran cyflawni nodau cynllun Mwy Na Geiriau.</p> <p>Y byrddau iechyd yn parhau i adrodd bod recriwtio gweithlu dwyieithog yn her sylweddol.</p> <p>Pobl Cymru yn parhau i gael anhawster wrth geisio cael gofal a gwasanaethau iechyd yn y Gymraeg ac felly ansawdd y gofal a dderbynnir yn dioddef.</p>

Cydweithio effeithiol ar draws y sector ôl-orfodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

Her: Sicrhau bod y sector ôl-orfodol gyfan yn ymrwmo i gydweithio gyda'r Coleg mewn modd effeithiol a strategol er mwyn cefnogi'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

Cyd-destun: Mae'r newidiadau arfaethedig i'r sector ôl-orfodol yng Nghymru a chynlluniau'r Llywodraeth presennol i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd (CADY/CTER) yn cynnig cyfle ar gyfer sicrhau hyn.

Argymhelliad	Effaith ei dderbyn	Effaith peidio ei dderbyn
<p>8. Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng y Coleg ac unrhyw gorff newydd er mwyn hwyluso cydweithio effeithiol ar draws y sector ôl-orfodol yng Nghymru a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg.</p>	<p>Y sector ôl-orfodol gyfan yn cydweithio i wireddu amcanion strategaeth Gymraeg 2050.</p> <p>Llwybrau dilyniant yn cael eu creu sy'n annog dysgwyr, hyfforddeion a myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau Gymraeg ac i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.</p>	<p>Diffyg cydweithio o fewn y sector yn arafu cynnydd o ran cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.</p>

4. Mewn ffocws: y sectorau ôl-16 ac addysg uwch

a. Addysg bellach cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

i. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Coleg ar gyfer y sector addysg bellach yw sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch i bawb.

Er mwyn gwireddu hyn mae angen defnyddio model datblygu sgiliau i gynyddu lefel ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder a rhuglder a fydd yn arwain at gynyddu sgiliau pawb yn y sector. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen sicrhau'r canlynol:

- cynnydd yn lefel y gefnogaeth sydd i ddysgwyr er mwyn defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg;
- capasiti staffio digonol ar ystod o lefelau ieithyddol i gefnogi'r dysgwyr;
- darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn cael eu datblygu mewn Colegau ar draws y wlad
- adnoddau a chymwysterau digonol i gefnogi'r dysgu hyn yn y Gymraeg.

Mae rôl allweddol i gyflogwyr hefyd wrth gydnabod a chreu'r galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithleoedd.

ii. Cyd-destun

Ers i'r Gweinidog Addysg lansio'r [Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg](#) ym mis Ionawr 2019, mae'r Coleg wedi gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid ac wedi gosod seiliau cadarn er mwyn gwireddu ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sectorau hynny.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, ar lefel cynllunio a datblygu strwythur cefnogi, mae'r Coleg wedi gwneud gwaith pwrpasol ac wedi gweld cynnydd addawol:

- Rydym wedi cyhoeddi adnoddau newydd er mwyn cefnogi dysgu cyfrwng Cymraeg yn y maes iechyd a gofal ynghyd ag adnoddau ymwybyddiaeth iaith a fydd yn cael eu defnyddio gan bob prentis i gyrraedd B3 yn eu gweithgaredd dysgu.
- Rydym wedi dyfarnu grantiau gwerth cyfanswm o £250,000 er mwyn datblygu darpariaeth ym meysydd iechyd a gofal, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus.
- Rydym wedi lansio cynllun llysgenhadon ar draws Cymru ar gyfer y sector addysg bellach a phrentisiaethau.
- Rydym wedi datblygu perthynas effeithiol â phartneriaid allweddol er mwyn gweithredu elfennau penodol o'r Cynllun Gweithredu;
- Rydym wedi adnabod cyllidebau pwysig sydd eisoes yn cael eu defnyddio i gefnogi themâu pwysig o fewn y cynllun gweithredu ac wedi cytuno gyda'r cyrff sy'n dal y cyllidebau hynny sut y gallent gael eu defnyddio mewn modd strategol, e.e. Cymwysterau Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg;
- Rydym wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg er mwyn lansio Cymraeg Gwaith Prentisiaethau ac yn parhau i isgontractio'r cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach i Golegau Cymru, er mwyn i Golegau Cymru ei gydlynu ar ein rhan.

Yn amlwg mae effaith posib Covid-19 ar ddarpariaeth Cymraeg a dwyieithog wedi peri cryn bryder i ni – mae'n bosib y gallai'r camau bychain sydd wedi eu cymryd gael eu tanseilio gan y newidiadau yn sgil y pandemig. Rydym wedi ceisio lliniaru y risgiau hyn drwy weithio gyda'r prosiectau sydd wedi eu hariannu er mwyn cydlynu darpariaeth ar draws Cymru mewn modd strategol a threfnus er mwyn macsimeiddio'r effaith ar ddysgwyr ar draws y wlad er mwyn creu darpariaeth cyfunol dwyieithog ar gyfer iechyd a gofal, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus.

Ond, er gwaetha'r cynnydd uchod, ac yn sgil pryderon yn deillio o'r pandemig, mae angen ystyriaeth fanwl a blaenoriaethu'r adnoddau sydd angen er mwyn gwireddu'r cynlluniau wedi eu gosod allan yn y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

Un o'r agweddau allweddol sydd wedi eu hamlygu gan y colegau addysg bellach yw'r prinder staff sy'n medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data diweddar gan y Cyngor Gweithlu Addysg ar gyfer prosiect i Lywodraeth Cymru yn cadarnhau hyn.

Mae'r data'n dangos mai 15% yn unig o ddarlithwyr sy'n siarad Cymraeg – a dim ond 11% sy'n adrodd eu bod yn medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.¹ Mae'r data hefyd yn adnabod sefyllfa pynciau penodol. Yn y tri phwnc sydd wedi eu blaenoriaethu, mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn gyffredinol ychydig yn uwch (ond ar eu hisaf yn y maes Iechyd a Gofal). Ymhellach, mae'r patrwm ar draws y sefydliadau addysg bellach yn amrywio cryn dipyn fesul lleoliad a fesul pwnc. Noder mai dau goleg yn unig ar draws Cymru sydd â chapasiti yn y tri maes blaenoriaeth. Ymhellach, mae ystadegau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos mai, yn 2018/19, 9% yn unig o weithgareddau dysgu yn y sector addysg bellach oedd drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n cynnwys elfennau dwyieithog.²

1 <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ystadegau-ac-ymchwil/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html> t.26.

2 <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/further-education-work-based-learning-and-community-learning-august-2018-july-2019-031.pdf>

iii. Blaenoriaethau ac argymhellion

Cynlluniau tymor byr (2020/21)

Mae ein profiad yn y maes addysg uwch yn dangos bod angen bwrw ati heb oedi â chynllunio bwriadus a buddsoddiad addas fesul pwnce er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth presennol. Mae angen i'r cynllun fod yn ddigon hyblyg a phragmataidd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau'r gwahanol sefydliadau neu ddarparwyr.

Ar gyfer 2020/21, rydym wedi adnabod tri chyllideb sydd eisoes yn bodoli er mwyn cefnogi agweddau penodol o gyfnod nesaf y Cynllun: cyllideb Cymwysterau Cymru ar gyfer cyfieithu cymwysterau addysg bellach a phrentisiaethau i'r Gymraeg (£180,000) a chyllideb hyfforddi staff (c. £200,000). Mae'r Coleg hefyd – mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg – wedi sicrhau ymrwymiad i ariannu hyfforddiant iaith ar gyfer staff yn y sector addysg bellach, sef gwerth hyd at £300,000 yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r Coleg eisoes yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'i bartneriaid er mwyn sicrhau bod y tri chyllideb yn cael eu dyrannu'n unol â blaenoriaethau'r Cynllun.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth presennol, awgrymir y dylid gweithredu ar ddau lefel:

- Er mwyn cynyddu nifer y staff sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y pynciau blaenoriaeth a sicrhau bod colegau addysg bellach yn cynnig darpariaeth ar draws y tri maes blaenoriaeth mae'r Coleg yn cynnig cynllun peilot dysgu dwyieithog gyda chyllideb i benodi hyd at dau ddarlithydd llawn amser ym mhob coleg addysg bellach (yn unol â chanfyddiadau yr ymarferiad mapio a blaenoriaethau'r colegau). Byddwn yn gweithio'n agos gyda phob coleg er mwyn deall eu hanghenion a'u blaenoriaethau
- Er mwyn penodi hyd at 2 darlithydd llawn amser a chynnal trafodaethau ynglŷn â priodoldeb rhannu adnoddau. Mae'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn targedu'r holl ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, ac felly mae angen cynyddu capasiti staffio mewn modd drastig er mwyn gwireddu'r weledigaeth.
- Er mwyn cefnogi'r darlithwyr newydd yn y colegau addysg bellach argymhellir bod angen Swyddog Datblygu Cwricwlwm i weithio gyda'r darlithwyr unigol yn ogystal â chreu system gefnogi ar-lein i gynorthwyo gyda datblygu darpariaeth newydd a gwella profiad y dysgwyr. Y nod bydd cynnig cefnogaeth ymarferol i oddeutu 25 darlithydd cyfredol a newydd eu penodi fel rhan o'r peilot hwn.

Byddai cost ariannu'r ddau gynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 fel a ganlyn:

Blaenoriaethau	Cyllideb ychwanegol
Cynllun Addysgu Cenedlaethol peilot yn y meysydd blaenoriaeth (hyd at ddau aelod staff CALI i bob sefydliad)	£750,000
Swyddog Datblygu Cwricwlwm	£35,000
Cefnogaeth ar-lein i ddatblygu darpariaeth	£25,000
	£810,000

Argymhelliad 1: Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 mae angen buddsoddiad ychwanegol o £810,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn dechrau ar y gwaith o gynyddu recriwtio staff newydd sy'n medru addysgu'r meysydd blaenoriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi strwythurau cefnogi yn eu lle i'w cynorthwyo i ddatblygu'r ddarpariaeth newydd.

Cynlluniau tymor canol (2021/22 a thu hwnt)

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer addysg bellach yn amlinellu wyth maes blaenoriaeth ar gyfer y Gymraeg sef:

- Iechyd a gofal
- Gofal plant
- Gwasanaethau cyhoeddus, megis yr heddlu a'r gwasanaeth tân
- Chwaraeon
- Celfyddydau perfformio
- Busnes
- Adeiladwaith
- Amaethyddiaeth

Yn dilyn blwyddyn beilot yn 2020/21 fel yr amlinellir uchod, awgrymir bwrw ymlaen ag ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg o fewn ein colegau yn 2021/22 a thu hwnt, gan ganolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth. Er mwyn gwneud cynnydd hollataidd a chynaliadwy, yn unol â'r Cynllun Gweithredu, bydd angen rhoi strwythurau cefnogi cenedlaethol yn eu lle yn ogystal. Golyga hyn y gall y Coleg gynnig cefnogaeth i addysgwyr a chydlynu'r gwaith cynllunio gan gynnwys:

- Sefydlu fforymau pynciol
- Trefnu gweithgareddau dilyniant

- Creu adnoddau Cymraeg yn seiliedig ar argymhellion yr arbenigwyr pwnc
- Trefnu digwyddiadau Deialog Diwydiant
- Cyflogi Swyddogion Datblygu yn y meysydd hyfforddiant, cwricwlwm a marchnata

Er mwyn creu diwylliant a chymuned Gymreig o fewn y colegau addysg bellach a sicrhau twf cynaliadwy yn y defnydd proffesiynol a chymdeithasol o'r Gymraeg yn ein cymunedau, mae angen pwyslais eglur hefyd ar gefnogi amgylchedd ac ethos ddwyieithog yn y sefydliadau addysg bellach a'r gweithle. Mae hyn yn elfen yr un mor bwysig o'r strategaeth a chynnyddu'r lefel staffio. O ran creu ethos a diwylliant Cymraeg, ein huchelgais erbyn 2025/26 yw y bydd gan bob coleg:

- Swyddog cangen;
- Rhaglen o weithgareddau hybu a hyrwyddo;
- O leiaf tri llysgennad.

O gymryd ymagwedd holistaidd a chynaliadwy i'r gwaith o gynllunio ar gyfer cyfoethogi'r ddarpariaeth gellid cael sicrwydd y bydd y Cynllun yn cael yr ardrawiad mwyaf posib.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen cyllideb dros dair blynedd fel a ganlyn:

Blwyddyn	Cyllideb
Blwyddyn 1 (2021/22)	£1,400,000
Blwyddyn 2 (2022/23)	£2,500,000
Blwyddyn 3 (2023/24)	£3,200,000

Argymhelliad 2: Ar gyfer tymor nesaf Senedd Cymru, dylid ymrwmo i weithredu'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfanrwydd dros gyfnod o dair blynedd gyda'r nifer o bynciau a gefnogir yn cynyddu'n flynyddol yn unol ag uchelgais y Llywodraeth. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen cyllideb dros dair blynedd fel a ganlyn: Blwyddyn 1: £1,400,000, Blwyddyn 2: £2,500,000, Blwyddyn 3: £3,200,000

b. Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

i. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Coleg ar gyfer y sector prentisiaethau yw sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch i bawb.

Er mwyn gwireddu hyn mae angen defnyddio model datblygu sgiliau tebyg i'r un a amlinellwyd uchod ar gyfer y sector addysg bellach er mwyn cynyddu lefel ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder a rhuglder pawb yn y sector. Er mwyn cyflawni hyn mae angen sicrhau'r canlynol:

- cynnydd yn lefel y gefnogaeth sydd i brentisiaid ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg;
- capasiti staffio digonol ar ystod o lefelau ieithyddol i gefnogi'r prentisiaid;
- prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu datblygu ar draws y wlad;
- adnoddau a chymwysterau digonol ar gael i gefnogi'r dysgu hyn yn y Gymraeg.

Mae rôl allweddol i gyflogwyr yn y maes hwn hefyd, yn benodol wrth gydnabod a chreu'r galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithleoedd a darparu cefnogaeth wrth fentora'r prentisiaid.

ii. Cyd-destun

Yn nhermau gweithlu, yn y sector prentisiaethau, 10% yn unig sy'n adrodd eu bod yn medru siarad Cymraeg a dim ond 7% sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.³ Ac mae ystadegau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos mai, yn 2018/19, 12% yn unig o'r gweithgareddau dysgu yn ymwneud â dysgu yn seiliedig ar waith oedd trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n cynnwys elfennau dwyieithog.⁴ Mae'r canrannau isel hyn yn tanlinellu'r gwaith sydd angen ei gyflawni yn y sector hwn i wireddu'r nod o gynyddu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg.

Mae'r Coleg eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag NTFW a Chymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod rhagor o gymwysterau ac asesiadau ar gael yn ddwyieithog. Mae gan Gymwysterau Cymru bolisi sy'n datgan bod disgwyl i bob cymhwyster sy'n cael ei gymeradwyo fod ar gael yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliad hwn yn cynnwys nifer sylweddol o gymwysterau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn y sector ôl-16.

iii. Blaenoriaethau ac argymhellion y Coleg

Ar y cyd â Chymwysterau Cymru a'r darparwyr prentisiaethau, mae'r Coleg yn cynnal ymarferiad mapio ffurfiol er mwyn bod mewn sefyllfa i nodi'r blaenoriaethau y dylid rhoi sylw iddynt. Bydd canlyniadau'r ymarferiad mapio yn llywio penderfyniadau cyllido Cymwysterau Cymru a'r Coleg o ran cyfieithu cymwysterau i'r Gymraeg gan ddefnyddio'r gyllideb o £180,000 sydd gan Cymwysterau Cymru i'r pwrpas hwn ar gyfer 2020/21. Byddwn yn sicrhau bod cyllideb y sector prentisiaethau ar gyfer cydlynio a hyrwyddo (c. £50,000) yn cael ei asio â'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Coleg hefyd – mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg – wedi sicrhau ymrwymiad i ariannu hyfforddiant iaith gwerth hyd at £100,000 yn ystod y flwyddyn i ddod.

³ <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ystadegau-ac-ymchwil/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html> t.26.

⁴ <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/further-education-work-based-learning-and-community-learning-august-2018-july-2019-031.pdf>

Tu hwnt i'r gweithgareddau a amlinellir uchod, mae'r Coleg o'r farn mai'r cyfrwng mwyaf effeithiol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau yng Nghymru mewn modd ystyrlon yw sicrhau bod y cytundebau rhwng Llywodraeth Cymru a'r darparwyr prentisiaethau a fydd yn cael eu hadolygu nesaf yn ystod 2021 yn cyfeirio yn glir at ddisgwyliadau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg. Fel rhan o'r broses gytundebol gellid gosod targedau penodol ar gyfer y nifer o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog – gan amrywio'r targedau'n unol â'r maes cyflogaeth a sgiliau'r prentisiaid. Byddai hyn yn sicrhau bod manteision clir i ddarparwyr i ddatblygu darpariaeth, felly hefyd fod goblygiadau cyllidebol i'r darparwr os nad oes cynnydd. Byddai trefn o'r fath hefyd yn arwain at waith pwrpasol i gefnogi prentisiaid i ddilyn eu cymwysterau drwy gyfrwng Gymraeg, er mwyn sicrhau bod nifer digonol o diwtoriaid ac aseswyr ar gael ac i sicrhau bod cymwysterau dwyieithog ar gael ar draws ystod eang o feysydd.

Argymhelliad 3: Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod y cytundebau rhyngddynt hwy a'r darparwyr prentisiaethau, a fydd yn cael eu hadolygu nesaf yn ystod 2021, yn cyfeirio'n glir at ddisgwyliadau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg.

Gydag arweiniad clir gan y Llywodraeth ar lefel cytundebu, amlinellir cyllideb gymharol fach isod ar gyfer y Coleg Cymraeg i sicrhau bod strwythurau cefnogi cenedlaethol yn eu lle a bod adnoddau dwyieithog penodol yn cael eu datblygu i gefnogi'r prentis a'r darparwr:

Blwyddyn	Cyllideb
Blwyddyn 1 (2021/22)	£500,000
Blwyddyn 2 (2022/23)	£725,000
Blwyddyn 3 (2023/24)	£865,000

Argymhelliad 4: Dylid hefyd clustnodi cyllideb rhesymol i'r Coleg er mwyn sicrhau bod strwythurau cefnogi cenedlaethol yn eu lle: Blwyddyn 1: £500,000, Blwyddyn 2: £725,000 a Blwyddyn 3: £865,000.

c. Y Gymraeg mewn addysg uwch

i. Gweledigaeth

Mae Cynllun Academaidd y Coleg ar gyfer addysg uwch yn seiliedig ar yr egwyddor fod 'hawl gan bob myfyriwr i addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf'.⁵ Nod y Coleg yw gweithio gyda'r prifysgolion i gynyddu'r cyfleoedd astudio i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn rhan o'u hastudiaethau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym mlynnyddoedd cyntaf y Coleg, canolbwyntiwyd ar ddatblygu capasiti academaidd a chreu swyddi darlithio newydd, ac mae'r gwaith i ymestyn y ddarpariaeth ar draws ystod mor eang â phosibl o bynciau'n parhau. Mae gwaith cynllunio academaidd y Coleg ar gyfer 2020 a thu hwnt yn canolbwyntio ar:

- Profiad y myfyriwr – bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn derbyn profiad addysgol o'r radd flaenaf;
- Darlithwyr – bod nifer addas o ddarlithwyr i gynnal y ddarpariaeth ac i gynnig ystod mor eang â phosibl o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cwricwlwm – bod darpariaeth academaidd ar gyfer myfyrwyr yn cael ei darparu mewn modd cost-effeithiol mewn cynifer â phosibl o ddisgyblaethau;
- Canlyniadau Myfyrwyr – bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cyflawni i'w llawn botensial o safbwynt eu cyfraddau cyflawni a'u llwyddiant i gael eu cyflogi ar ddiwedd eu hastudiaethau neu i symud ymlaen at astudiaethau ôl-raddedig;
- Adnoddau – bod profiad addysgu'r myfyrwyr yn cael ei gyfoethogi drwy ddatblygiad adnoddau o'r radd flaenaf;
- Cyflogadwyedd – bod anghenion datblygu gweithlu yng Nghymru yn cael eu hadnabod ac yn cyfrannu at gynllunio a datblygu darpariaeth;
- Cynaliadwyedd – bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn elwa ar ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

ii. Cyd-destun

Ers sefydlu'r Coleg yn 2011, mae sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg uwch wedi ei thrawsnewid: mae cynnydd sylweddol wedi'i weld yn y prifysgolion o ran y ddarpariaeth Gymraeg, y dewis a gynigir i fyfyrwyr, a'r nifer o fyfyrwyr sy'n dewis astudio rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dros y degawd diwethaf, mae'r ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion wedi cynyddu'n sylweddol a bellach mae tua 1,000 o gyrsiau ar gael i'w hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Bellach hefyd mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio yn ein prifysgolion ledled Cymru. Bu aelodaeth i'r Coleg yn agored ers y cychwyn a chan adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Staffio Academaidd, lansiwyd y cynllun Darlithwyr Cysylltiol yn 2018 ac mae ganddo eisoes dros 300 o aelodau. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i bawb sy'n addysgu drwy'r Gymraeg mewn prifysgol fod yn un o ddarlithwyr cysylltiol y Coleg.

O ganlyniad i'r datblygiadau sylweddol yn y ddarpariaeth a'r cynnydd yn y nifer o ddarlithwyr ac addysgwyr, ers sefydlu'r Coleg mae cynnydd o dros 2,000 yn y nifer o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y

Gymraeg a chynnydd o oddeutu 400 yn y nifer sy'n astudio traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Coleg, ar y cyd â'r prifysgolion, wedi cyflawni cryn dipyn mewn amgylchedd heriol, cystadleuol a chyfnewidiol, a than yn ddiweddar wedi dygymod yn dda â lleihad mewn adnoddau yn ogystal â datblygiadau technolegol cyflym a newidiadau yn yr hinsawdd wleidyddol.

Fodd bynnag, mae'r cyfnod presennol yn un heriol tu hwnt i'n prifysgolion yn ariannol gydag ansicrwydd ynglŷn a phatrymau dewisiadau myfyrwyr yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r ffaith fod niferoedd sylweddol yn dewis astudio y tu allan i Gymru hefyd yn her. Mae nifer o'n sefydliadau addysg uwch wedi gorfod gwneud toriadau, ailstrwythuro a diswyddo nifer o'u staff mewn blynyddoedd diweddar ac mae argyfwng Covid-19 wedi dwysáu yr heriau hyn ymhellach.

Ar yr un pryd, mae cyllideb graidd y Coleg ar gyfer y sector addysg uwch wedi aros yn yr unfan ers 2016 ac felly mae dygymod â'r cynnydd yn y gost o gynnal y ddarpariaeth Gymraeg, e.e. codiadau cyflog, pensiynau a chwyddiant, wedi bod yn fater o gryn bryder i'r prifysgolion.

Nid oes amheuaeth y byddai'r cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr wedi crebachu dros y pum mlynedd ddiwethaf heb gyllideb, cefnogaeth ac arweiniad y Coleg. Ond nid oes sicrwydd y bydd cyllideb disymud barhaus yn ddigon i amddiffyn y ddarpariaeth bresennol rhag doriadau.

Serch hynny, mae'r Coleg yn parhau i gynllunio mewn ffordd uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, ac wedi cytuno ar fodel gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) lle y bydd disgwyl i bob darparwr addysg uwch yn eu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad anelu at sicrhau bod canran benodol o'u holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn astudio rhywfaint o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y cyd-destun a nodwyd, mae'r model hwn yn fodd addas o osod targedau a mesur llwyddiant y prifysgolion i gyrraedd y targedau hynny.

iii. Blaenoriaethau ac argymhellion y Coleg

Bydd yr heriau a amlinellwyd uchod yn parhau ac o ganlyniad i Covid-19 yn dwysáu dros y cyfnod nesaf. Mae'n hollbwysig felly, mewn cyfnod economaidd heriol, bod y Coleg yn gweithio mewn modd hyblyg a chreadigol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'i gyllideb bresennol a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith astudio i nifer cynyddol o fyfyrwyr.

Dros y cyfnod nesaf, nod y Coleg ydy:

- Cynnal y ddarpariaeth bresennol;
- Adeiladu ar y cynnydd a welwyd drwy ddyfnhau ac ymestyn y ddarpariaeth lle bo hynny'n briodol;
- Datblygu cynlluniau newydd er mwyn ehangu mynediad a denu cynulleidfaoedd newydd at y Gymraeg mewn addysg uwch.

Cynnal y ddarpariaeth bresennol

Fel y nodir uchod, tra bod cost cynnal darpariaeth Gymraeg mewn prifysgolion wedi cynyddu e.e. codiadau cyflog darlithwyr, pensiynau a chwyddiant, nid yw cyllideb graidd y Coleg wedi cynyddu ers 2016.

Dros y blynyddoedd mae'r prifysgolion wedi mynd yn fwyfwy dibynnol ar gyllid y Coleg i gynnal eu darpariaeth Gymraeg, ac mae hyd yn oed y pynciau lle y bu traddodiad cryf o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn profi gwasgfa, ac yn llai cynaliadwy heb gymorth y Coleg.

Byddai cynyddu cyllideb graidd y Coleg yn galluogi'r Coleg i gynnig mwy o gefnogaeth i'r adrannau sydd eisoes yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod amser darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn cael ei warchod at ddiben dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac na cheir unrhyw grebachu ar y ddarpariaeth bresennol.

Cynyddu cyfleoedd o fewn y modelau presennol

Erbyn 2020, bydd y cynllun Grantiau Pynciol, sy'n disodli'r Cynllun Staffio blaenorol, wedi cyrraedd ei gapasiti o ran y gyllideb graidd a ddarperir i'r Coleg ar hyn o bryd.

Mae'r Coleg yn ceisio parhau i gynyddu'r ystod o bynciau sydd ar gael i'w hastudio yn y Gymraeg, ac eleni wedi mentro i feysydd newydd drwy ddarparu Grantiau Sbarduno cymharol fach i ambell bwnc neu brifysgol lle na cheid darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r blaen, e.e. Deintyddiaeth a Milfeddygaeth. Bu'r cynllun hwn yn llwyddiannus ond gyda'r cyllid sydd ar gael, nid oes sicrwydd y bydd modd parhau i gynnig cefnogaeth barhaus i'r adrannau hyn, nac i ymestyn ystod y ddarpariaeth ymhellach cyn bod yr ymrwymadau'n fwy na'r gyllideb.

Gyda chynnydd cymedrol mewn cyllideb, byddai modd:

- Cefnogi prifysgolion sydd eisoes yn derbyn Grant Pynciol i gyrraedd a mynd y tu hwnt i'w targedau. Mae rhai prifysgolion yn awyddus i ddyfnhau'r profiad astudio sydd ar gael i fyfyrwyr drwy ddyblu faint o gredydau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. codi o 40 credyd y flwyddyn i 80 credyd), tra bod pawb yn awyddus i gynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n cofrestru ar y ddarpariaeth;
- Sicrhau bod datblygiadau o ran dysgu cyfunol yn wyneb argyfwng Covid-19 yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a bod y datblygiadau hyn yn cael eu prif ffrydio. Mae'r datblygiad hwn yn cynnig cyfleoedd sylweddol o ran hyrwyddo gweithgaredd gydweithredol a rhannu arbenigeddu;
- Cynyddu faint o bynciau sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. pynciau gofal iechyd megis Optometreg, Radiograffeg a Iechyd Galwedigaethol, yn ogystal â Phensaerniaeth, Cynllunio Gwlad a Thref, a Seicoleg Addysgol.
- Cynyddu nifer y lleoliadau sy'n cynnig pynciau penodol, er mwyn rhoi gwir ddewis i fyfyrwyr. Byddai hyn ond yn addas petai niferoedd myfyrwyr yn ei ganiatáu.

Ehangu mynediad a denu cynulleidfaoedd newydd

Mae modelau cyllido presennol y Coleg yn canolbwyntio ar ddarpariaeth israddedig llawn amser, ac yn cefnogi adrannau sy'n cynnig cyfleoedd astudio 'o sylwedd' i fyfyrwyr (h.y. lle y mae modd astudio un ai o leiaf traean neu ddeuparth y cynllun gradd trwy gyfrwng y Gymraeg).

Fodd bynnag, gyda chynnydd rhesymol yn y gyllideb, ceir nifer mawr o gyfleoedd i ymestyn y ddarpariaeth y tu hwnt i'r cyfyngiadau hynny, gan ehangu mynediad at y Gymraeg a cheisio apelio at gynulleidfaoedd newydd, gan gynnwys:

- Dyfnhau'r modd astudio, a sicrhau twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-raddedig, ôl-gymhwys, graddau sylfaen, darpariaeth 'mynediad at addysg uwch', darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach, darpariaeth yn y gweithle, datblygiad proffesiynol parhaus, ayyb. Byddai modd targedu myfyrwyr o Gymru sydd wedi dewis astudio cyrsiau gradd israddedig mewn prifysgolion tu allan i Gymru, a'u denu nôl i ddilyn cwrs ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg;
- Cynnal sgiliau iaith myfyrwyr nad ydynt yn cael cyfle, neu nad ydynt yn dewis, astudio traean neu ragor o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn gynnwys cynnig darpariaeth rhwng 10 credyd a 30 credyd y flwyddyn, a fyddai'n galluogi myfyrwyr i ddefnyddio eu Cymraeg ar lefel addysg uwch, meithrin eu hyder a chynnal a datblygu eu sgiliau dwyieithog. Mae'r data'n dangos bod pwll potensial sylweddol o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru sydd yn ddihyder yn eu sgiliau iaith, a/neu'n disgrifio eu hunain fel myfyrwyr 'nad ydynt yn rhugl'. Tra bod siaradwyr rhugl yn fwy tebygol o gofrestru ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg na myfyrwyr nad ydynt yn rhugl, mae nifer y myfyrwyr hynny nad ydynt yn rhugl tua dwywaith yn fwy na nifer y myfyrwyr rhugl. O gynllunio darpariaeth bwrpasol ar gyfer y gynulleidfa hon, gellid gwella eu sgiliau iaith a rhoi iddynt yr hyder a'r arfau iaith angenrheidiol i ymuno â'r gweithlu dwyieithog.

Mae'r Coleg wedi cefnogi cynllun arbrofol ym Mhrifysgol De Cymru eleni i ddarparu modiwlau cyflogadwyedd sy'n cyfuno hyfforddiant sgiliau iaith a sgiliau ar gyfer y gweithle, a chyfrannu at yr ymdrech i greu gweithlu proffesiynol dwyieithog a chyflawni un o brif nodau strategaeth Miliwn o Siaradwyr. Gyda chyllideb briodol, gellid efelychu'r cynllun hwn ar draws pob prifysgol, er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr, beth bynnag fo'r cwrs gradd, yn cael y cyfle i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg tra eu bod yn y brifysgol.

- Drwy efelychu model pyramid y sector ôl-16, gellid hefyd ddefnyddio cyllid ychwanegol i'r sector addysg uwch er mwyn creu darpariaeth bwrpasol ar gyfer myfyrwyr di-Gymraeg, megis modiwlau ymwybyddiaeth iaith, Cymraeg i ddechreuwr, ayyb. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at nodau ac amcanion Miliwn o Siaradwyr.

Argymhelliad 5: Dylid cynyddu grant craidd y Coleg ar gyfer addysg uwch er mwyn cyfateb â chynnydd chwyddiant ers 2011. Gallai'r cynnydd ddeillio o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Uwch, cronfa ar gyfer ailadeiladu yn dilyn argyfwng Covid-19 neu unrhyw "difidend" a ddaw yn y dyfodol o ganlyniad i argymhellion adroddiad Diamond.

ch. Sicrhau cyflenwad digonol o athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Bydd sicrhau cyflenwad digonol o athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr Cymraeg yn allweddol i lwyddiant strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, cred y Coleg ei fod yn anochel na fydd y targedau presennol ar gyfer cynyddu niferoedd athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys dysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y sector uwchradd.

Cyhoeddwyd [nodyn briffio](#) gan Gomisiynydd y Gymraeg yn mis Awst eleni ynglŷn â'r heriau yn y maes hyfforddi athrawon Cymraeg a dwyieithog ac mae'r Coleg yn rhannu nifer o'r pryderon sydd wedi eu hamlinellu yn y papur.

Ymddengys bod amryw weithgareddau ar waith i geisio mynd i'r afael â'r heriau, ond o gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid, nid yw'n glir bod y gwaith o gynllunio hir dymor a manwl yn seiliedig ar ddata yn digwydd mewn modd digon strategol ar hyn o bryd. Cred y Coleg bod angen cyllid neilltuol, a chorff â chyfrifoldeb penodol i weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, wrth i'r corff hwnnw gyflawni ei ddyletswyddau statudol, er mwyn sicrhau bod digon o athrawon yn cael eu hyfforddi yng Nghymru i gyflenwi anghenion cyfrwng Cymraeg y sector ysgolion cynradd ac uwchradd, ac y dylai'r Coleg dderbyn y chyfrifoldeb am hyn. Nid yw'n gwneud synnwyr bellach mai dyma'r unig faes o fewn i addysg uwch lle nad oes gan y Coleg rôl o ran cynllunio a chefnogi darpariaeth.

Gyda chyllideb neilltuol a chyfrifoldebau penodol, cred y Coleg y gall wneud gwahaniaeth sylweddol yn y maes hyfforddi athrawon drwy sbarduno gwell cydweithio rhwng gwahanol gyrff (fel y profwyd eisoes ym maes addysg bellach a phrentisiaethau) a sicrhau mwy o werth am arian i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6: Dylid sefydlu perthynas strategol ffurfiol gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg i osod trefniadau cenedlaethol yn eu lle ar gyfer hyfforddi athrawon gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog. Bydd angen cyllideb benodol ychwanegol o £200,000 ar y Coleg i ymgymryd â rôl o'r fath. Yn ogystal byddem yn rhagweld rhai cyllidebau presennol yn trosglwyddo i'r Coleg.

d. Creu gweithlu dwyieithog ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth glir yn ei strategaeth Mwy Na Geiriau ar gyfer darparu gofal a gwasanaeth iechyd o ansawdd i bobl Cymru - golyga hyn yn ymarferol bod modd i glaf gyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg ag ymarferwyr iechyd a gofal perthnasol. Mae hyn yn profi'n dalcen caled i'r Byrddau Iechyd ar draws Cymru sy'n adrodd bod recriwtio gweithlu dwyieithog yn her sylweddol.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC / HEIW) yw'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu gweithlu'r GIG ac mae ganddo

gyllideb sylweddol at y pwrpas hwn.

Cred y Coleg y dylid sefydlu perthynas strategol rhyngddo ac AaGIC er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas a datblygu cynlluniau pwrpasol. Mae hyn yn gweddu i Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020.

Mae angen cynllun gweithredu cynhwysfawr i ddatblygu gweithlu hyderus ddwyieithog ar gyfer y sectorau iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd angen gwaith a thrafodaeth fanwl ar gynllun o'r fath ond bydd angen i'r nodweddion a ganlyn fod yn rhan allweddol ohono er mwyn creu'r newid y dymuna'r Llywodraeth ei weld:

- Ymwybyddiaeth iaith yn rhan greiddiol o hyfforddiant pob darpar ymarferydd iechyd a gofal yng Nghymru;
- Targedau clir o ran y nifer o hyfforddeion fydd yn cofrestru ar ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar draws yr holl gyrsiau iechyd bob blwyddyn.

Bydd angen i amcanion y strategaeth gael eu hadlewyrchu yn y broses o gomisiynu cyrsiau a bydd angen i ganran o'r gyllideb gael ei glustnodi ar gyfer hyfforddi gweithlu dwyieithog. Argymhelliad 7: Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng AaGIC a'r Coleg Cymraeg er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas a datblygu cynlluniau pwrpasol.

Argymhelliad 7: Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng AaGIC a'r Coleg Cymraeg er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas a datblygu cynlluniau pwrpasol.

dd. Cydweithio'n effeithiol ar draws y sector ôl-orfodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r sector ôl-orfodol yng Nghymru a chynlluniau'r Llywodraeth bresennol i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd (CADY/CTER) yn cynnig cyfle i sicrhau bod y sector gyfan yn ymrwmo i gydweithio gyda'r Coleg mewn modd effeithiol a strategol er mwyn cefnogi'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae'n hanfodol fod unrhyw gorff newydd sy'n cael ei sefydlu yn gwneud hynny mewn modd a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'w werthoedd a'i nodau ac y bydd yr iaith yn cael ei phrif ffrydio ar draws gweithgareddau'r sefydliad.

Mae'r Coleg yn ymrwmo i weithio'n effeithiol gydag unrhyw gorff newydd er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas ar gyfer y sefydliadau addysgiadol a'r darparwyr.

Argymhelliad 8: Dylid sefydlu perthynas strategol agos rhwng y Coleg ac unrhyw sefydliad newydd er mwyn hwyluso cydweithio effeithiol ar draws

CYSYLLTU Â NI:

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan

Heol y Coleg

Caerfyrddin

SA31 3EQ

01267 610400

colegcymraeg.ac.uk

@ColegCymraeg



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol